OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 649 (Cy.73)

# YSTADEGAU SWYDDOGOL, CYMRU

## Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 6(1)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ("y Ddeddf") yn darparu bod ystadegau a gynhyrchir gan y Bwrdd Ystadegau, adran o'r llywodraeth, Gweinyddiaeth yr Alban, un neu ragor o awdurdodau Gweinidogion Cymru (sef, Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, neu Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru), adran yng Ngogledd Iwerddon, neu unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran y Goron, yn ystadegau swyddogol.

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 6(1)(b) a (2) o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i orchmynion gael eu gwneud i bennu personau eraill yn gynhyrchwyr ystadegau swyddogol. Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi bod yr ystadegau a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen yn ystadegau swyddogol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i ystadegau datganoledig Cymru fel y'u diffinnir yn adran 66 o'r Ddeddf.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 649 (W.73)

# OFFICIAL STATISTICS, WALES

## The Official Statistics (Wales) Order 2013

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Section 6(1)(a) of the Statistics and Registration Service Act 2007 ("the Act") provides that statistics produced by the Statistics Board, a government department, the Scottish Administration, a Welsh Ministerial authority (the Welsh Ministers, the First Minister for Wales, or the Counsel General to the Welsh Assembly Government), a Northern Ireland department, or any other person acting on behalf of the Crown are official statistics.

This Order is made under section 6(1)(b) and (2) of the Act, which allows orders to be made to specify other persons as producers of official statistics. This Order designates the statistics produced, or to be produced, by the persons listed in the Schedule as official statistics. This Order applies to Welsh devolved statistics as defined in section 66 of the Act.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 649 (Cy.73)

# YSTADEGAU SWYDDOGOL, CYMRU

## Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013

*Gwnaed* *12 Mawrth 2013*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 6(1)(b) a (2) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(**1**).

Yn unol ag adran 6(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Bwrdd Ystadegau.

Yn unol ag adran 65(7) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chymeradwywyd ef ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2013 a daw i rym ar 1 Ebrill 2013.

**Ystadegau Swyddogol - ystadegau swyddogol sydd yn gyfan gwbl yn ystadegau datganoledig Cymru**

**2**. I'r graddau nad ydynt fel arall yn ystadegau swyddogol yn rhinwedd adran 6(1)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, mae'r ystadegau sydd yn gyfan gwbl yn ystadegau datganoledig Cymru(**2**) a gynhyrchir, neu sydd i'w cynhyrchu, gan y personau a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, wedi eu pennu'n ystadegau swyddogol at ddibenion adran 6(1)(b) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 2007 p.18.

(**2**) Mae i "ystadegau datganoledig Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh devolved statistics" a ddiffinnir yn adran 66(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2013 No. 649 (W.73)

# OFFICIAL STATISTICS, WALES

## The Official Statistics (Wales) Order 2013

*Made* *12 March 2013*

*Coming into force in accordance with article 1*

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred by section 6(1)(b) and (2) of the Statistics and Registration Service Act 2007(**1**).

In accordance with section 6(3) of that Act, the Welsh Ministers have consulted the Statistics Board.

In accordance with section 65(7) of that Act, a draft of this Order has been laid before and approved by resolution of the National Assembly for Wales.

**Title and commencement**

**1**. The title of this Order is the Official Statistics (Wales) Order 2013 and it comes into force on 1 April 2013.

**Official Statistics - wholly Welsh devolved official statistics**

**2**. To the extent that they are not otherwise official statistics by virtue of section 6(1)(a) of the Statistics and Registration Service Act 2007, the wholly Welsh devolved statistics(**2**) produced, or to be produced, by the persons listed in the Schedule to this Order are specified as official statistics for the purposes of section 6(1)(b) of that Act.

(**1**) 2007 c.18.

(**2**) "Welsh devolved statistics" is defined in section 66(3) of the Statistics and Registration Service Act 2007.

*Jane Hutt*

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, un o Weinidogion Cymru

12 Mawrth 2013

Minister for Finance and Leader of the House, one of the Welsh Ministers

12 March 2013

## YR ATODLEN

Erthygl 2

Corff Adnoddau Naturiol Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

## SCHEDULE

Article 2

Arts Council of Wales

Natural Resources Body for Wales

Public Health Wales National Health Service Trust

Sports Council for Wales

Welsh Language Commissioner

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.00

W1540/04/13 ON